





**20/11/2025**

## Carol yr Ŵyl – ffilmio yn yr ysgol

Mae'r ysgol wedi cyrraedd yr 8 olaf yng nghystadleuaeth cyfansoddi a pherfformio Carol yr Ŵyl eleni.
Bydd 'Prynhawn Da' yn ffilmio yn yr ysgol ar fore dydd Iau yr 20$^{fed}$ o Dachwedd yn ystod y bore.
Mae llythyr eisoes wedi ei rannu gydag aelodau côr bl.5a6 sy'n canu'r garol.

## *Christmas Carol – filming at the school*

*The school has reached the last 8 in this year's Christmas Carol composing and performing competition.*
*'Prynhawn Da' will be filming in the school on the morning of Thursday 20$^{th}$ November. A letter has already been shared with members of the Year 5 and 6 choir who sing the carol.*

---




**26/11/2025**

## Pantomeim! (Blwyddyn 1 – 6)

Bydd disgyblion blynyddoedd 1 – 6 yn ymweld â Theatr y Werin ar brynhawn dydd Mercher y 26$^{ain}$ o Dachwedd ar gyfer pantomeim Y Brenin March. Rydym yn ddiolchgar iawn i Nia Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr am roi cais am grant 'Ewch i weld' a llwyddo i hawlio £1,000 tuag at leihau'r costau. Golyga hyn mai'r gost i bob plentyn fydd £6.00 gan gynnwys cludiant. Bydd hyn yn ymddangos ar eich ParentPay yn fuan. Gwerthfawrogir eich cyfraniadau.

## *Pantomime! (Years 1 – 6)*

*Pupils in years 1 - 6 will visit Theatr y Werin on the afternoon of Wednesday 26$^{th}$ November for the pantomime Y Brenin March. We are very grateful to Nia Evans, Chair of the Governors for applying for a 'Go and see' grant and successfully claiming £1,000 towards reducing the costs. This means that the cost for each child will be £6.00, including transport. This will appear on your ParentPay shortly. Your contributions are appreciated.*

---




Poster llawn ar waelod y llythyr
*Poster in full at the end of the letter*

**27/11/2025**

## Ffair Nadolig y G.Rh.A

Mae aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn brysur yn paratoi at y Ffair Nadolig eleni.
Bydd y ffair yn digwydd yn yr ysgol ar nos Iau y 27$^{ain}$ o Dachwedd rhwng 5:30 a 7:30yh.
Ar y noson bydd Groto Siôn Corn, stondinau lleol, cŵn poeth, diodydd poeth ac oer, perfformiadau gan blant bl.1a2 a gêmau hwylus!
Dewch yn llu i gefnogi!

Archebu lle ar gyfer ffoto

## *P.T.A Christmas Fair*

*The members of the Parent and Teacher Association are busy preparing for this year's Christmas Fair. The fair will take place at the school on Thursday evening, the 27$^{th}$ of November, between 5:30 and 7:30pm.*
*On the night there will be Santa's Grotto, local stalls, hot dogs, hot and cold drinks, performances by Yrs.1&2 children, and fun games! Come along to show your support!*

Book a place for photography

---



## Côr yr ysgol – dyddiadau pwysig

Mae ymarferion côr yr ysgol yn parhau er mwyn paratoi at ddigwyddiadau Nadoligaidd sydd ar y gweill:

- **Tachwedd 28$^{ain}$** – Goleuo Coeden Pentref Llanbadarn Fawr
- **Tachwedd 29$^{ain}$** – Goleuo Coeden Aberystwyth

Bydd mwy o wybodaeth am y ddau ddigwyddiad hwn yn eich cyrraedd maes o law.

## *School Choir – important dates*

*The school choir's rehearsals continue in order to prepare for two Christmas events on the following dates:*

- *November 28$^{th}$ – Llanbadarn Fawr Christmas Lights*
- *November 29$^{th}$ – Aberystwyth Christmas lights*

*More information about these two events will be shared with you in soon.*




## Noddi'r Cyngerdd Nadolig

Os oes gennych ddiddordeb mewn noddi rhaglen y Gyngerdd Nadolig a gynhelir yn y Neuadd Fawr ar nos Iau, Rhagfyr 12fed yna cysylltwch â mi cyn dydd Llun, Rhagfyr 2ail. Gallwch gael hysbyseb fechan chwarter tudalen am £50 neu hysbyseb hanner tudalen am £100; mae hysbyseb tudalen gyfan yn £150. Mae modd i noddwyr y noson gael hyd at 6 tocyn am ddim a seddau cadw ar gyfer y noson. Sieciau yn daladwy i 'Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg Aberystwyth' Mi fyddwn yn defnyddio'r arian nawdd i dalu am y gost o ddefnyddio'r Neuadd Fawr.

## *Christmas Concert Sponsorship*

*If you are interested in sponsoring the Christmas Concert programme which will be held in the Great Hall on Thursday, December 12th then please contact me before Monday, December 2nd. You can get a small quarter page ad for £50 or a half page ad for £100; a full page advert is £150. Sponsors of the event can get up to 6 free tickets and reserved seats for the concert. Cheques payable to 'Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg Aberystwyth' We will use the sponsorship money to pay for the cost of hiring the Great Hall.*

## Ymddygiad cadarnhaol

Rydym fel ysgol wedi ymrwymo i addysgu ymddygiadau positif ac i gefnogi eich plant i gyrraedd ein disgwyliadau uchel. Mae ein hamgylchedd dysgu cynhwysol wedi'i greu gan ymddygiad oedolion sy'n gryf o ran ffiniau ac yn llawn caredigrwydd. Rydym yn falch bod y gwaith a ddilynwn yn yr ysgol bellach ar gael i deuluoedd, ac yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn rhannu rhai syniadau yn ein llythyr wythnosol.

Mae digwyddiadau byw misol hefyd y gallwch eu mynychu ar-lein. Mae sesiwn awr o hyd o'r enw 'Behaviour Book Club', dan arweiniad Charlotte Clarke o *When The Adults Change*, ar-lein am 8:00yh ar ddydd Iau olaf pob mis.
Gallwch ddod o hyd i'r ddolen ymuno ar gyfer y Behaviour Book Club yma.

Os hoffech ddysgu mwy am y dull, gallwch brynu copi o *When The Parents Change, Everything Changes* ar-lein yma.

## *Positive behaviour*

*As a school, we are committed to teaching positive behaviours and supporting your children to meet our high expectations. Our inclusive learning environment has been created by adult behaviour that is both strong on boundaries and big on heart. We are delighted that the work we follow in school has been made accessible to families, and over the next few months we will be sharing some ideas in our weekly letters.*

*There are also monthly live events you can attend online. There is an hour-long 'Behaviour Book Club' session, hosted by Charlotte Clarke from When The Adults Change, online at 8:00pm on the last Thursday of each month.*
*You can find the joining link for the Behaviour Book Club here.*

*If you'd like to learn more about the approach, you can buy a copy of 'When The Parents Change, Everything Changes' online here.*

## Gwybodaeth ychwanegol

Atodaf wybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y llythyr hwn – maent yn bosteri am ddigwyddiadau lleol amrywiol i'ch cynorthwyo chi fel rhieni a gofalwyr gyda gweithgareddau.

## *Additional information*

*I am attaching additional information at the end of this letter - they are posters about various local events to assist you as parents and carers with activities.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg


Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r 🖱 Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the 🖱 Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

### Dyddiadau pwysig Tymor yr hydref:

- Ffair Nadolig y G.Rh.A : Tachwedd 27$^{ain}$
- Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 11$^{eg}$
- Diwrnod olaf y tymor hwn : Rhagfyr 19$^{eg}$

### *Autumn term important dates:*

- *PTA Christmas Fayre : November 27$^{th}$*
- *Christmas Concert : December 11$^{th}$*
- *Last day of this term : December 19$^{th}$*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**14/11/2025**
🖱 www.ysgolgymraeg.cymru







https://shorturl.at/2W3Eo


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
E/N CEGIN
GRŴP RHIENI IFANC GYDA CWRS COGINIO EIN CEGIN
NYTH NI, CAMPWS LLWYN YR EOS PENPARCAU
POB WYTHNOS - AMSER TYMOR YN UNIG
Dydd Iau am 6 wythnos
9.30yb - 12.30yp
Ar gyfer rhieni 26 oed ac iau gyda phlant 0-4 oed
Sesiwn coginio llawn hwyl lle rydym i gyd yn dod at ein gilydd i baratoi, coginio, sgwrsio ac yna eistedd i ymlacio a mwynhau'r bwyd. Addas i'r teulu cyfan!
• Holl gynhwysion ac offer wedi'u ddarparu
• Cwrdd â teuluoedd eraill
• Bwyta prydau iach gyda'n gilydd
DOES DIM ANGEN ARCHEBU LLE (RHOWCH WYBOD I NI EICH BOD YN DOD OS YN BOSIBL)
Jo Alice — 07891 321 778
Kiri - 07929 752 948
Nyth Ni, Campws Llwyn yr Eos, Penparcau, Aberystwyth. SY23 1SH.
What3words///cysonaf.egni.yfwn
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Dechrau'n Deg Flying Start


Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
Parenting and Family Support
E/N CEGIN
YOUNG PARENTS GROUP & EIN CEGIN COOKERY COURSE
NYTH NI, LLWYN YR EOS CAMPUS PENPARCAU
WEEKLY GROUP - TERM TIME ONLY
Thursdays for 6 weeks
9.30am - 12.30pm
For parents under 26 with children 0-4 years
A fun cooking group where we all get together, help to prepare, cook, chat and then sit, relax and to enjoy the meal. Suitable for all the family!
• All ingredients and equipment provided
• Meet other families
• Eat healthy meals together
NO NEED TO BOOK (LET US KNOW YOU'RE COMING IF POSSIBLE)
Jo Alice - 07891 321 778
Kiri - 07929 752 948
Nyth Ni, Llwyn yr Eos campus, Penparcau, Aberystwyth. SY23 1SH
What3words///gain.note.betraying
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Dechrau'n Deg Flying Start